**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (BGC)**

Dydd Mercher, 11eg Rhagfyr 2019 10:00yb-12:00yp

Swyddfeydd Adra, Tŷ Coch, Bangor

Presennol: -

| ENW | SEFYDLIAD |
|---|---|
| Cyng. Dyfrig Siencyn (DS) | Cyngor Gwynedd |
| Dilwyn Williams (DOW) | Cyngor Gwynedd |
| Anwen Morgan (AM) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ffion Johnstone (FfJ) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Jerry Hunter (JH) | Prifysgol Bangor |
| Sioned Rees (SR) | Llywodraeth Cymru |
| Sian Williams (SW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Bethan Russell Williams (BRW) | Mantell Gwynedd |
| Siobhan Adams (SA) | Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Shan Morris (SM) | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Richie Green (RG) | Heddlu Gogledd Cymru |

Yn mynychu: -

| | |
|---|---|
| Nonn Hughes (NH) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| Sophie Ann Hughes (SAH) | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| Dewi Wyn Jones (DWJ) | Cyngor Gwynedd |
| Morwena Edwards (AME) – Eitem 4 | Cyngor Gwynedd |
| Catherine Roberts (CR) – Eitem 4 | Cyngor Gwynedd |

Ymddiheuriadau: -

| | |
|---|---|
| Emyr Williams | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cyng. Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ffrancon Williams | Cartrefi Cymunedol Gwynedd |
| Catrin Thomas | Gwasanaeth Prawf |
| Sian Purcell | Medrwn Môn |

**EITEM 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod, a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**EITEM 2 – CYLCH GORCHWYL – EITEM SEFYDLOG**

Dim i'w nodi.

**EITEM 3 – COFNODION (I'W CYMERADWYO) A MATERION YN CODI: 11/12/19**

Cadarnhawyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r trafodaethau. Dyma grynodeb o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:

1. NH i edrych mewn i'r ffordd ymlaen mewn perthynas â chynllun prentisiaethau ar y cyd – NH i gyflwyno fel rhan o eitem 7
2. Cysylltu gyda'r Comisiynydd i drafod cyfleon cydweithio drwy'r is-grŵp iaith (ar gyfleon prentisiaethau) - Wedi bod yn cydweithio efo nhw, wedi gwneud y cyswllt a gwahodd nhw i gyfrannu i'r is-grŵp iaith. Guto Dafydd wedi mynychu.
3. SR i adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar faterion y lefi prentisiaethau – SR a NH wedi bod mewn cyswllt i drafod y ffordd ymlaen.
4. Is-grŵp Cartrefi i bobl leol i drafod rhwystrau tai gwag/hen stoc ymhellach - Wedi ei drafod yn yr is-grŵp. Teimlo ei fod yn cael ei drafod beth bynnag gan y cynghorau a sefydliadau eraill ond wedi cytuno i drafod ymhellach yn y cyfarfod.
5. Siobhan Adams a Jeremy Hunter i gael trafodaeth bellach am y blynyddoedd cynnar - i'w drefnu
6. SAH i sicrhau fod yr cyflwyniadau gan sefydliadau sydd heb gyflwyno eto ar eu blaenoriaethau strategol ar agenda'r cyfarfod nesaf – eitem 6 ar yr agenda
7. NH/is-grŵp cartrefi i sicrhau cytundeb yr Awdurdod Tân ynghylch trefniadau'r swydd Rheolwr Prosiect - NH wedi cysylltu. Awdurdod Tân yn cytuno mewn egwyddor.
8. GJ/ LlMH i sicrhau trafodaeth ym Môn ynghylch y cynnig i gyfuno partneriaethau tai Gwynedd a Môn - I'w drafod ym mis Ionawr.
9. SW i ddrafftio llythyr gan y BGC at y Llywodraeth i gefnogi safbwynt Cyngor Gwynedd mai nid cyfrifoldeb lleol yw Newid Hinsawdd - SW a NH yn drafftio, ond o bosib bydd angen ei ddiweddaru yn dilyn cyfarfod efo Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yr wythnos ganlynol
10. SW i adrodd yn ôl ar waith BGC Conwy a Dinbych o leihau allyriadau carbon yn y cyfarfod nesaf - Ar yr agenda
11. SW ac EW i drafod presenoldeb ar yr is-grŵp iechyd a gofal gyda FfJ - Eitem i'w drafod ar yr agenda
12. CT i anfon copi o'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhannu gwybodaeth rhwng y Bwrdd a'r Gwasanaeth Prawf at NH - Y cytundeb wedi'i anfon ymlaen i'r swyddog monitro yng Ngwynedd, ac wedi'i gymeradwyo i aelodau'r BGC ei arwyddo

**EITEM 4 – CYFLWYNIAD DIOGELWCH CYMUNEDOL**

Un o prif flaenoriaethau'r bartneriaeth yw i sicrhau fod yr hyn sy'n digwydd yn rhanbarthol ddim yn cael effaith andwyol ar ein gwaith yn lleol. Gofynnwyd i'r BGC ystyried y berthynas gyda'r Bartneriaeth ac a yw'r BGC yn dymuno derbyn adroddiadau ganddynt. Nododd DOW fod angen i'r BGC fod yn fyw i'r hyn sy'n digwydd ac y gallai adroddiad diwedd blwyddyn yn egluro'r hyn sy'n digwydd yn yr ardaloedd, boed o ran fyrddau rhanbarthol neu lleol, fod yn fuddiol i alluogi'r BGC i fwydo mewn os yn gweld rhywbeth sy'n codi ac angen mewnbwn. Cytunwyd felly i rannu'r adroddiad sy'n cael ei greu ar gyfer craffu unwaith y flwyddyn gyda'r BGC, ac i CR wneud cyswllt gyda'r BGC fel eithriad os yn teimlo fod angen codi rhywbeth penodol fel arall. Awgrymodd AME y byddai'n syniad rhannu ambell enghraifft o achos er mwyn rhoi'r stori lawn am yr hyn sy'n digwydd yng Ngwynedd a Môn.

Nodwyd fod llawer o waith yn digwydd yn y Brifysgol o amgylch trais yn erbyn merched gan mai myfyrwyr sydd mwyaf wrth risg. Awgrymodd JH fod CR yn gwneud cyswllt gydag Helen Munroe.

Nodwyd fod nifer o fudiadau 3ydd sector yn gwneud gwaith prosiect yn y maes yma (ataliol a rhengflaen gan amlaf), ond fod llawer ohono yn dod i ben a bod angen bod yn wyliadwrus am effaith colli'r math yna o ddarpariaeth yn y maes cymunedol. Nodwyd fod angen i'r math yma o beth gael ei godi yn y bartneriaeth er mwyn ei godi yn rhanbarthol.

1. CR i rannu adroddiad craffu y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol unwaith y flwyddyn, gydag ambell esiampl o achosion sy'n cyfleu'r stori o amgylch yr hyn sy'n digwydd.

2. CR i wneud y cyswllt gyda Helen Munroe yn y Brifysgol mewn perthynas â'r Bwrdd trais yn erbyn merched.

**EITEM 5 – ADRODDIADAU AR GYNNYDD**

**Cartrefi ar gyfer pobl leol – Ffrancon Williams**

Cafwyd diweddariad gan NH yn absenoldeb FfW. Pwysleisiodd y diffyg safleoedd sydd wedi eu cynnig gan y cynghorau'n benodol ar gyfer datblygiad a gofynnodd i'r sefydliadau ystyried hyn ymhellach.

Gofynnwyd y cwestiwn a yw pethau wedi eu drysu rhwng y partneriaethau tai a'r is-grŵp cartrefi sydd eisoes gennym. Nodwyd fod hyn i'w drafod ymhellach gan yr is-grŵp er mwyn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

3. Sefydliadau i ystyried a oes modd cynnig rhagor o safleoedd ar fyrder

4. FfW i adrodd yn ôl i'r BGC mewn perthynas â'r trefniant o Bartneriaethau Tai a'r is-grŵp.

**Yr Iaith Gymraeg – Jerry Hunter**

Cyflwynwyd yr adroddiad a oedd yn cynnig ein bod yn cynnal ymgyrch marchnata yn dilyn ymarferiad mapio ymrwymiadau iaith sefydliadau'r BGC. Mynegwyd nad oedd ymgyrch o'r fath, ar ei ben ei hun, yn ateb y gofyn o safbwynt y dinesydd a fod angen mynd ymhellach i annog a gwthio defnydd o'r Gymraeg er mwyn sicrhau creu gwir newid. Byddai'r BGC yn ffafrio gweld

gweithgareddau ac ymrwymiad pendant i weithredu mewn ffordd benodol er mwyn ceisio perswadio'r defnydd o'r Gymraeg, cyn gwneud gwaith marchnata.

Fel man cychwyn, gofynnodd y BGC felly i'r is-grŵp ystyried gwaith i edrych ar dderbynfeydd yn gyntaf drwy sefydlu prosiect i hyfforddi/delio â derbynfeydd yn gyffredinol yn y man cyntaf er mwyn edrych i annog a hybu defnydd yn y derbynfeydd hynny cyn gwneud unrhyw farchnata.

| |
|---|
| 5. Is-grŵp Iaith Gymraeg i ystyried y ffordd ymlaen gyda'r gwaith derbynfeydd yma |

**Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau – Sian Williams**

Mewn perthynas â'r angen i adrodd yn ôl ar waith BGC Conwy a Dinbych ar leihau allyriadau carbon, nododd SW, er gwybodaeth, fod gwaith yn digwydd yno i gael grwpiau cymunedol ac unigolion yn ymrwymo i addewidion o newid eu ffordd o fyw ac y byddai ymgyrch marchnata yn mynd rhagddi yn dilyn y Nadolig.  Awgrymwyd fod cyfle yma i Mantell Gwynedd a Medrwn Môn awgrymu fod grwpiau cymunedol yng Ngwynedd a Môn yn defnyddio yr un addewidion. SAH i gylchredeg diweddariad BGC Conwy a Dinbych ar hyn.

Nodwyd fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cwrdd â'r Prif Weinidog er mwyn symud ymlaen ar y maes yma a cytunwyd y byddai'n fuddiol i'r Bwrdd nodi, tra'n bod ni'n ceisio dygymod â effeithiau newid hinsawdd, nad yw'r gyfundrefn bresennol yn addas i bwrpas a bod angen ei hadolygu i sicrhau eglurder fel nad ydym yn dyblygu'r hyn sy'n digwydd yn y Bwrdd, yn fewnol yn y sefydliadau, ac yn rhanbarthol. Roedd teimlad o amgylch y Bwrdd y byddai'r neges yn gryfach petai'r BGC yn cyflwyno ei farn fel Bwrdd i'r Comisiynydd, yn hytrach na chefnogi safbwynt Cyngor Gwynedd yn unig. Nodwyd hefyd fod Cyngor Gwynedd wedi trefnu i gael cyfarfod â'r Comisiynydd ar y mater.

Nodwyd y bydd SW yn rhoi cyflwyniad ar eu prosiect carbon positif yn y cyfarfod nesaf er mwyn dangos sut maen nhw'n edrych ar eu ffrydiau gwaith. Roedd anogaeth i Gyfoeth Naturiol Cymru wneud cyswllt â lab cynaliadwyedd Prifysgol Bangor.

Cytunwyd y byddai'n fuddiol i'r BGC dderbyn dadansoddiad gan SW am yr hyn sy'n digwydd a sut y maen nhw'n gweld y wahanol elfennau'n ffitio'n lleol ac yn genedlaethol. Byddai hefyd yn fuddiol i ddiffinio'r gwaith lliniaru a'r gwaith addasu. Nododd SW ei bod yn bwysig cofio fod yr is-grŵp newid hinsawdd wedi cytuno i ganolbwyntio ar addasu cymunedol ond cytunwyd ei bod yn bwysig cael trafodaeth fel BGC am sut allwn ni helpu'n gilydd.

| |
|---|
| 6. SAH i gylchredeg diweddariad BGC Conwy a Dinbych mewn perthynas â'u haddewidion cymunedol.<br>7. SW a NH i wneud y gwaith mapio yma er mwyn gweld be sy'n addas am drafodaeth ar y wahanol lefelau<br>8. SW ac Huw Williams (Ymgynghoriaeth Gwynedd) i anfon llythyr y BGC i Mark Drakeford cyn ei gyfarfod gyda'r Comisiynydd. |

**Iechyd a Gofal Integredig**

Nodwyd pryder fod presenoldeb aelodau wedi amrywio yn y cyfarfodydd, gan effeithio ar gynnydd a pwysleisiwyd fod angen cysondeb.

**Oedolion -** Nodwyd fod penodiadau wedi eu gwneud ar gyfer Rheolwr Rhaglen a Swyddogion Prosiect Cymunedol y timau integredig, a bod bwriad i ddatblygu fframwaith *systems thinking* yn seiliedig ar fethiant yn y galw. Bydd ffocws ar geisio newid diwylliant a sicrhau cynaliadwyedd yn symud ymlaen.

**Plant** - Ystyriwyd falle fod angen edrych yn ehangach ar y maes oherwydd mae'n anodd symud ymlaen gyda'r bresenoldeb arferol yn yr is-grŵp (sef Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol). SA i gyflwyno cynnig er mwyn cael cytundeb y BGC i gydweithio yn well.

**Iechyd Meddwl** - Cytunwyd y byddai'n fuddiol derbyn cyflwyniad gan yr is-grŵp iechyd meddwl gyda phwyslais ar ehangu'r prosiect canolfannau 'Gallaf I' (ICAN).

**Anableddau Dysgu** - Nodwyd rhywfaint o bryderon am yr hyn sy'n digwydd yn lleol ac yn rhanbarthol ym maes Anableddau Dysgu, a nodwyd fod Môn yn mynd i dreialu cyllidebau pŵl o fewn y ffrwd gwaith yma.

Cynigiodd FfJ fod yr is-grŵp yn cynnal gweithdy er mwyn ystyried a thrafod syniadau i'r dyfodol. Cymeradwyodd y BGC y syniad yma, a nodwyd y byddai cynnig i aelodau'r is-grŵp ac aelodau'r Bwrdd gael mynychu. Pwysleisiodd y Brifysgol pwysigrwydd eu presenoldeb nhw fel darparwr gweithlu'r dyfodol.

Pwysleisiwyd fod y gwaith yma sydd wedi digwydd yn waith na fyddai wedi digwydd i'r un graddau oni bai am ymdrechion yr is-grŵp ac felly fod yma neges gryf am gyfraniad y Bwrdd.

Cynigiwyd fod angen atgoffa ein hunain yn flynyddol o pam rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud ac i ba gyfeiriad ydan ni'n ceisio mynd, er mwyn sicrhau fod gan bawb rownd y Bwrdd ddealltwriaeth am y gwaith sy'n mynd ymlaen.

9. SA i gyflwyno cynnig er mwyn derbyn cytundeb y Bwrdd i gydweithio'n well.

10. Trefnu cyflwyniad gan yr is-grŵp iechyd meddwl, gan ganolbwyntio ar ehangu'r rhaglen canolfannau ICAN.

11. NH/SAH i ystyried sut orau i sicrhau cyfle i aelodau'r Bwrdd gael eu hatgoffa o gyfeiriad y gwaith.

**EITEM 6 - CYFLWYNIADAU SEFYDLIADAU AR EU BLAENORIAETHAU STRATEGOL**

Derbyniwyd cyflwyniadau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Gwynedd, Mantell Gwynedd, Heddlu Gogledd Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Cyngor Gwynedd – nodwyd fod Newid Hinsawdd ar goll ar hyn o bryd ond ei fod yn flaenoriaeth ychwanegol yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2020/21 yn dilyn eu datganiad o argyfwng hinsawdd. Nodwyd fod lle i'r BGC gael sgwrs ynghylch y gwaith mae'r Cyngor yn ei ystyried i alluogi cerbydau hydrogen ayb. Cynigiwyd ei bod yn sgwrs i'w chael yn dilyn y gwaith mapio y bydd SW yn ei wneud.

Cyfoeth Naturiol Cymru – wrthi ar hyn o bryd yn rhoi datganiadau ardal at ei gilydd ac yn gweithio i ymgysylltu â'r cyhoedd a partneriaid rhwng rŵan a mis Mawrth. Y bwriad yw penderfynu ar y cyd

beth sy'n bwysig o ran amgylchedd ein hardal a sut byddwn yn cydweithio. Nodwyd dymuniad i roi cyflwyniad i'r BGC yn y cyfarfod nesaf mewn perthynas â'r themâu sy'n codi a'r camau nesaf.

12. SW i roi cyflwyniad i'r BGC ar waith ymgysylltu Cyfoeth Naturiol.

13. Y sefydliadau sydd heb gyflwyno i wneud hynny'n y cyfarfod nesaf.

**EITEM 7 - PAPUR AR Y CYNLLUN PRENTISIAETHAU AR Y CYD**

Nodwyd fod sawl opsiwn wedi'i gyflwyno ond fod NH yn argymell opsiwn 3 – aros i gael gwybod mwy am gyfeiriad y Bartneriaeth Sgiliau. Cytunwyd i ofyn i Reolwr Rhaglen y Bartneriaeth Sgiliau roi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf er mwyn cyflwyno eu hawydd i gydweithio.

Nodwyd hefyd fod Cynllun Graddedigion Llywodraeth Cymru ar gael i ni rŵan os yn dymuno mynegi diddordeb, a bod dymuniad i 3 corff wneud hynny er mwyn ystyried gallu ymrwymo flwyddyn nesaf.

Nododd SW fod diddordeb yn fewnol gan Gyfoeth Naturiol ym maes llifogydd a'u bod yn ei ystyried yn gyfle i hyfforddi peirianwyr. Nodwyd dymuniad i gydweithio â Chynghorau Gwynedd a Môn. Cytunwyd i fynegi diddordeb ar y pwynt hwn a meddwl mwy am y manylion ar gyfer ail rhan y cais.

14. Mynegi diddordeb yng Nghynllun Graddedigion y Llywodraeth.

15. Gwahodd Rheolwr Rhaglen y Bartneriaeth Sgiliau, Sian Lloyd Roberts, i roi cyflwyniad byr.

**EITEM 8 - TREFNIADAU CRAFFU Y BWRDD**

Nodi'r papur wedi'i gyflwyno gan NH er gwybodaeth.

**EITEM 9 - Y GOFRESTR RISG**

Nodi er gwybodaeth.

**EITEM 10 - GOHEBIAETH**

**Sefydlu Mannau Diogel i Ferched** – Y Gwasanaeth Prawf yn cynnig i'r BGC ystyried safleoedd posib. Aelodau i gysylltu'n uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth Prawf neu trwy NH os â diddordeb. NH hefyd i basio'r ohebiaeth ymlaen at Catherine Roberts i sicrhau fod yno linc priodol.

**Gwahoddiad i ddigwyddiad cyfnewid syniadau Cenedlaethau'r dyfodol ar y 10fed Ionawr -** Unrhyw un sydd â diddordeb i fynegi hynny drwy NH.

**UNRHYW FATER ARALL**

**Adroddiad Blynyddol** - Gan y bydd angen i'r BGC lunio adroddiad blynyddol yn dilyn ei gyfarfod ar 6ed Mawrth, nodwyd y byddai'n fuddiol i arweinyddion yr is-grwpiau ystyried cynnwys y Cynllun Llesiant gan edrych ar yr hyn roedden ni'n ddweud y byddem yn ei wneud er mwyn cyfleu cynnydd yn gryno yn yr adroddiadau cynnydd mis Mawrth.

**Tlodi –** Nodwyd fod Pwyllgorau Craffu Gwynedd a Môn wedi cwestiynu’r flaenoriaeth tlodi a beth mae’r BGC yn ei wneud. Penderfyniad y BGC oedd i adael i’r Awdurdodau Lleol ganolbwyntio ar y maes yma ac wedyn ystyried a oes bylchau y gallem ychwanegu gwerth. Cytunwyd ei bod yn amserol gofyn am adroddiadau lefel uchel gan yr Awdurdodau yng nghyfarfod y BGC ar 6ed Mawrth.

**Hyd yr agenda** – Cwestiynwyd a fyddai adroddiadau ar bapur yn ddigonol gan yr is-grŵpiau wrth symud ymlaen, er mwyn lleihau’r agenda.

16. Arweinwyr yr is-grwpiau i ystyried y Cynllun Llesiant wrth lunio adroddiadau cynnydd i gyfarfod mis Mawrth, er mwyn bwydo i Adroddiad Blynyddol y Bwrdd.

17. NH i wahodd cyflwyniadau gan yr Awdurdodau Lleol ynghylch eu gwaith ym maes tlodi.